**Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**STRATEGAETHAU CYMUNEDOL – YSTYRIED YMATEBION I’R YMARFER YMGYNGHORI**

## Diben

1. Gofynnir i’r Pwyllgor nodi’r ymatebion i’r ymarfer ymgynghori ar ganllawiau drafft ar gyfer Strategaethau Cymunedol a chynnig unrhyw sylwadau pellach.

## Cefndir

2. Derbyniwyd oddeutu 90 ymateb ysgrifenedig gan gynghorau sir a bwrdeistref sirol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, cynghorau tref a chymuned, parciau cenedlaethol, y gwasanaeth tân, undebau llafur, amrywiaeth eang o gyrff y sector cyhoeddus a mudiadau gwirfoddol gan gynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Anfonwyd nifer o ymatebion gan awdurdodau lleol ar ran partneriaethau lleol, ar ôl trafod ar y cyd. Yn gyffredinol, roedd y rhai a ymatebodd yn croesawu ac yn cefnogi’r canllawiau arfaethedig ar strategaethau cymunedol.

## Rhesymoli cynlluniau

3. Cafwyd cefnogaeth eang i’r syniad o ddefnyddio’r strategaeth gymunedol i leihau a rhesymoli nifer y cynlluniau y mae gofyn i awdurdodau lleol a’u partneriaid eu paratoi. Nododd nifer o’r ymatebwyr fod angen crisialu’r berthynas â chynlluniau eraill y mae’r Cynulliad yn gofyn amdanynt (fel y Rhaglenni Gwella Iechyd, Cynlluniau Datblygu Unedol a chynlluniau Amcan 1). Pwysleisiodd eraill y ffaith bod angen cydamseru prosesau cynllunio, o bosibl gyda dadl ffurfiannol ar flaenoriaethau bob hydref, er mwyn ei gwneud yn haws i gynllunio a gweithio ar y cyd mewn gwirionedd. Gwelwyd cefnogaeth i’r syniad o leihau nifer y cynlluniau sydd eu hangen yn benodol er mwyn cael gafael ar gyllid.

## Partneriaethau

4. Cyfeiriodd nifer o’r ymatebwyr at bartneriaethau sy’n bodoli eisoes ac a fyddai’n sail ar gyfer datblygu strategaethau cymunedol. Soniwyd am rôl cyrff cyhoeddus cenedlaethol: byddai angen iddynt hwy, yn yr un modd â’r awdurdodau lleol, ystyried ei bod yn ddyletswydd arnynt i weithio mewn partneriaeth er mwyn cefnogi strategaethau cymunedol. Byddai angen iddynt ddod o hyd i gydbwysedd newydd rhwng eu blaenoriaethau strategol, cenedlaethol a chanolbwynt mwy lleol y strategaethau cymunedol.

5. Pwysleisiodd cynghorau cymuned y rôl y gallent hwy ei chwarae, yn arbennig ble y datblygwyd cynlluniau pentref neu dref eisoes, gan fynegi'r gobaith y byddai'r strategaethau cymunedol yn cael eu datblygu o'r gwraidd i fyny. Nododd nifer ohonynt eu bod eisoes yn gweithio gyda'u prif awdurdod ar gynllunio cymunedol.

6. Mynegodd Swyddfa'r Post siom nad oedd y drafft yn cynnwys mwy am rôl y sector busnes, gan danlinellu'r rôl y gallai'r is-bostfeistri a swyddogion post ei chwarae.

**Sgiliau, gallu a chyfranogiad**

7. Fel yn achos Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, nododd yr ymatebwyr y bydd ar asiantaethau a sefydliadau angen cefnogaeth i gyflawni'r newid diwylliant sylweddol hwn, ac i ddysgu sut i weithio mewn ffordd wahanol. Ar yr un pryd, byddai ar gymunedau angen cefnogaeth i feithrin eu gallu i gydweithio a chysylltu â sefydliadau mwy.

8. Soniodd nifer o'r ymatebwyr am y goblygiadau, o ran adnoddau, sydd ynghlwm wrth ymrwymo'n llwyr i ddatblygu strategaeth gymunedol. Nododd eraill bod cyfle i arbed arian trwy i wahanol gyrff cyhoeddus ddod at ei gilydd i weithio gyda chymunedau yn hytrach na chynnal ymarferion ar wahân.

9. Cododd nifer o awdurdodau'r cwestiwn o sut i annog y cyhoedd i ymwneud â'r broses ar raddfa eang, a chroesawyd yr awgrym y gellid darparu gwaith ymchwil ac arferion da ar annog y cyhoedd i gymryd rhan. Roedd angen i gynlluniau ystyried barn ymwelwyr ag ardal ble'r oedd y rhain yn ffactor arwyddocaol.

**Cyfle cyfartal, cynaliadwyedd a mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol**

10. Nododd Cyngor Cymru i'r Byddar yr hyn y gellid ei gyflawni mewn strategaethau cymunedol ar gyfer y byddar a'r trwm eu clyw. Croesawyd y ffaith bod cymunedau ffydd yn cael eu cydnabod yn y canllawiau, a thanlinellwyd y cyfraniad cadarnhaol y gallent ei wneud. Pwysleisiwyd y cyfle sydd i strategaethau cymunedol fynd i'r afael â darpariaeth gwasanaethau yn y Gymraeg er mwyn diwallu anghenion lleol.

11. Cafwyd cytundeb yn gyffredinol y dylid cynnwys cynlluniau Agenda 21 Leol yn y strategaethau cymunedol ac y byddai'r cyntaf, ble roeddynt wedi'u datblygu'n briodol, yn sylfaen dda ar gyfer yr olaf.

12. Er bod yr ymatebwyr yn cydnabod y dylai themâu'r strategaethau cymunedol gynnwys mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol, nododd rhai hefyd y byddai strategaethau cymunedol yn caniatáu i'r bartneriaeth ystyried anghenion yr holl gymunedau lleol ac nid y rhai hynny a allai elwa o arian Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn unig.

## Amserlenni

13. Roedd y ddogfen ymgynghori yn ceisio sylwadau ar p’un a ddylid adolygu strategaethau cymunedol bob pedair blynedd yn unol â’r cylch etholiadau llywodraeth leol. Roedd nifer o’r ymatebwyr yn cytuno â’r cynnig hwn ond teimlai eraill y dylid gallu penderfynu hynny’n lleol, neu na fyddai digon o bwys yn cael ei roi ar gyfraniad y partneriaid eraill trwy wneud hynny ac y byddai perygl i’r strategaeth gymunedol gael ei gweld fel dogfen y cyngor yn hytrach na chynllun partneriaeth gwirioneddol.

14. Ar y cyfan, teimlai’r ymatebwyr fod angen adroddiadau cynnydd tymor byr (blynyddol) a gweledigaeth ac amcanion tymor hir. Nododd rhai ei bod yn bwysig i’r strategaeth gymunedol gynhyrchu rhai "buddugoliaethau cyflym" i gymunedau lleol ac osgoi bod yn ddim amgenach na chynllun arall i’w adael ar silff.

## Monitro a gwerthuso

15. Teimlai’r ymatebwyr ei bod yn bwysig i fonitro’r broses o ddatblygu strategaethau cymunedol ledled Cymru er mwyn sicrhau bod ysbryd y canllawiau’n cael ei ddilyn, arferion da yn cael eu rhannu a blaenoriaethau lleol yn bwydo i mewn i bolisïau’r Cynulliad. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai’n ddefnyddiol i gyfeirio at ddangosyddion posibl y gallai pobl eu defnyddio er mwyn mesur cynnydd, er enghraifft ar faterion ansawdd bywyd.

## Casgliad

16. Ystyrir yr ymatebion i’r ymarfer ymgynghori wrth lunio fersiwn derfynol y canllawiau, y bwriedir ei gosod gerbron y Cynulliad i’w dadlau yn nechrau mis Mehefin.

## Cyswllt

Dr Ian Thomas, Yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol est 3179